# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

15.03.2023

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Mercher, 22 Mawrth 2023 am 11.30 am i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddiant personol**

3. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2022 ac unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion (Tudalennau 3 - 6)**

4. **I dderbyn adroddiad ar welliannau arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau (Tudalennau 7 - 10)**

5. **I dderbyn adroddiad ar Gyfrifon Ariannol 2021-22 (Tudalennau 11 - 14)**

6. **I dderbyn adroddiad ar gais gan Gyngor Tre Ceinewydd i osod Coeden Nadolig ar dir gerllaw Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd (Tudalennau 15 - 16)**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

**Yn gywir**

LEdwards

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR YMDDIRIEDOLWYR ELUSENNAU a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynhadledda ddydd Dydd Llun, 26 Medi 2022**

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Keith Evans (Cadeirydd), y Cynghorwyr Wyn Evans, Gwyn Wigley Evans, Rhodri Evans, Geraint Wyn Hughes, Chris James a Caryl Roberts

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Matthew Vaux

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Louise Harries, Cyfreithiwr a Nia Jones, Gwasanaethau Democrataidd

(12.10pm - 1.00pm)

**1 Ymddiheuriadau**
Fe wnaeth y cynghorwyr Marc Davies, Endaf Edwards a Ceris Jones ymddiheuro am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

**2 Datgelu buddiant personol neu ragfarnol**
Datganodd y Cynghorydd Rhodri Evans fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 7 isod.

**3 Cofnodion Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2021 aac ystyried unrhyw fater sy'n codi o'r cofnodion**
**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 16 Rhagfyr 2021 yn gywir.
Nid oedd dim materion yn codi.

**4 Adroddiad ar Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**
Ystyriodd yr aelodau delerau ac amodau'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau, gan nodi bod y gwelliannau a argymhellir hefyd wedi cael eu hystyried gan Weithgor y Cyfansoddiad.

**PENDERFYNWYD** yn unfrydol:

a) i nodi Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau fel y nodir yn Atodiad 1;
b) bod Aelodau'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn argymell bod y Cyngor yn ystyried y gwelliannau canlynol i'r Cylch Gorchwyl fel yr ystyrid gan Weithgor y Cyfansoddiad ar 12 Medi 2022:
    i. i ddisodli'r frawddeg gyntaf sy'n darllen **"Gweithredu fel ymddiriedolwr ar gyfer yr holl asedion eiddo ym meddiant y Cyngor drwy ymddiriedolaeth elusennol"** gyda'r canlynol: **"Gweithredu fel ymddiriedolwr mewn perthynas â'r holl asedau eiddo a ddelir gan y Cyngor ar ymddiriedolaethau elusennol"**
    ii. i gynnwys y canlynol o fewn y Cyfansoddiad ar ôl y llinell '10 aelod: 5 pleidleisio a 5 heb bleidleisio: **"Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd a'r hawl i bleidleisio**

**ond yn absenoldeb Cadeirydd gall Is-gadeirydd yr un Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gael yr hawl i bleidleisio"**

5 **Adroddiad Blynyddol Neuadd Goffa Cei Newydd 2020-2022**

Cyflwynodd Louise Harries, Cyfreithiwr Gwasanaethau Cyfreithiol yr adroddiad i'r Pwyllgor gan nodi ei bod hi'n ofynnol i'r y Sefydliad Elusennol Corfforedig sy'n prydlesu'r adeilad, o dan gymal 26.6 o'r brydles i ddarparu crynodeb blynyddol i'r ymddiriedolwr sy'n nodi'r defnydd y gwnaethpwyd i'r adeilad yn ystod y 12 mis blaenorol. Nodwyd bod yr adroddiad diweddaraf hwn yn ymgorffori'r defnydd yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf.

Nododd aelodau'r Pwyllgor eu bod yn fodlon bod defnydd o'r adeilad yn cyflawni'r gofynion gan longyfarch y gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n lleol er budd y trigolion lleol.

Nododd y Cynghorydd Matthew Vaux fod y gwirfoddolwyr wedi bod yn eithriadol o brysur yn peintio'r adeilad ac yn gwneud gwaith yn sgil arian grant i wella'r adeilad a diolchodd iddynt am eu gwaith.

**PENDERFYNWYD** yn unfrydol nodi'r diweddariad oddi wrth y tenant ar gyfer y cyfnod 10 Chwefror 2020 - 9 Chwefror 2022.

6 **Adroddiad ar Lyfrgell Cei Newydd a'r Ystafell Ddarllen**

Cyflwynodd Louise Harries, Cyfreithiwr Gwasanaethau Cyfreithiol, yr adroddiad i'r Pwyllgor a darparodd y cefndir hanesyddol i statws yr ymddiriedolaeth, ac i werthu rhan o'r tir yn 1959. Nododd fod gwasanaethau Llyfrgell wedi cael eu rhedeg o'r safle tan fis Tachwedd 2021 pan symudodd y gwasanaethau hyn i Neuadd Goffa Cei Newydd a bod yr eiddo hwn a gedwir mewn ymddiriedolaeth wedi bod yn wag o'r dyddiad hwnnw. Nodwyd bod Cyngor Tref Cei Newydd yn cyfrannu tuag at gostau trydan y Llyfrgell o'i lleoliad newydd a bod Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaethau rhyngrwyd, offer TG a phob llyfr.

Nid oes cyfraddau treth yn daladwy oherwydd gwerth ardrethol isel yr eiddo. Mae trydan yn cael ei bilio ar hyn o bryd yn cael ei dalu gan y Cyngor yn gorfforaethol fel rhan o'i gyfrif grŵp fodd bynnag yn dilyn ymweliad gan y Gwasanaethau Cynnal a Chadw mae'n bosibl y bydd y trydan yn cael ei ddatgysylltu i arbed costau, a chostau yn cael eu hadennill o gyfrif yr ymddiriedolaeth gan taw'r ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol amdano ac nad yw'n gyfrifoldeb corfforaethol. Mae'r eiddo mewn cyflwr cymharol dda yn allanol fodd bynnag mae crac mawr sy'n rhedeg hyd y llawr a allai fod yn hollbwysig os yw'n effeithio ar sylfeini'r adeilad. Nid oes cyfleusterau i'r anabl, toiledau na dŵr yn yr adeilad, ac mae Llyfrgell Gymunedol Cei Newydd sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr wedi cadarnhau nad oes ganddynt gynlluniau i symud yn ôl i safle'r Ymddiriedolaeth.

Cynigiodd y Cynghorydd Caryl Roberts i'r cyfnod ymgynghori gael ei ymestyn y tu hwnt i 6 wythnos, a nododd y Cynghorydd Matthew Vaux y byddai'n beth da derbyn sylwadau pobl y dref. Holodd yr aelodau a fyddai elw o unrhyw werthiant yn aros yng Nghei Newydd, a fyddai modd ystyried prydlesu'r adeilad a beth fyddai'n digwydd i unrhyw daliadau a dderbynnir

mewn rhent. Nodwyd y byddai angen i'r ymgynghoriad ddigwydd cyn ystyried yr opsiynau hyn, fodd bynnag efallai y bydd modd ystyried gwneud cais i'r Comisiwn Elusennau i nodi telerau o'r fath ar werthu adeilad fel oedd wedi digwydd yn dilyn gwerthu'r Ysgol yn Nhregaron, a nodwyd hefyd y byddai unrhyw arian a dderbyniwyd mewn rhent yn mynd tuag at amcanion yr ymddiriedolaeth.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor:

1. bod achlysur cy-pres wedi codi dan s.62(1)(e)(i) o Ddeddf Elusennau 2011;
2. cynnig, yn amodol ar ymgynghoriad, mai diben newydd yr ymddiriedolaeth i'w gynnig i'r Comisiwn Elusennau yw datblygu addysg trigolion Cei Newydd';
3. i gadarnhau bod Swyddogion, ar ran yr ymddiriedolaeth, yn cynnal ymgynghoriad a fydd yn hirach na 6 wythnos. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriadau yn cael eu dwyn yn ôl i'w hystyried gan y Pwyllgor unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

**7 Adroddiad ar gyn Ysgol Sirol Tregaron - is-grŵp**

Cyflwynodd Louise Harries, Cyfreithiwr Gwasanaethau Cyfreithiol adroddiad i'r Pwyllgor oedd yn rhoi cefndir i werthu'r eiddo a gedwir mewn ymddiriedaeth, a'r sefyllfa ariannol bresennol yn dilyn y gwerthiant a'r costau cysylltiedig. Nodwyd bod apêl wedi ei gyflwyno i Asiantaeth y Swyddfa Brisio ym mis Ionawr 2020 yn gofyn i'r sgôr gael ei leihau i sero gan fod yr adeilad wedi bod yn wag ac yna'n cael ei feddiannu gan yr elusen yn unig, ac nid gan y Cyngor fel Awdurdod Addysg Lleol. Gallai canlyniad yr apêl hon effeithio ar gyfanswm y swm a gedwir mewn ymddiriedaeth.

Yn y cyfamser, nodwyd y bydd angen i'r Ymddiriedolwr sefydlu is-grŵp i ystyried sut y gellid defnyddio'r arian a ddelir gan yr ymddiriedolwr tuag at amcanion yr elusen. Byddai unrhyw argymhellion gan yr is-grŵp wedyn yn cael eu dwyn gerbron y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau i'w hystyried a'u penderfynu. Argymhellwyd hefyd bod y Pwyllgor yn ystyried cynnal ymgynghoriad ar-lein i gael barn gan y cyhoedd.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. penodi'r Cynghorwyr Rhodri Evans, Gwyn Wigley Evans a Wyn Evans sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau i'r is-grŵp oherwydd lleoliad eu Wardiau, ac i wahodd y Cynghorydd Endaf Edwards fel Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Dysgu;
2. i wahodd Pennaeth Ysgol Henry Richard, cynrychiolydd o Gylch Meithrin Tregaron, Y Cynghorydd Ifan Davies (Aelod Lleol), Cadeirydd Cyngor Tref Tregaron, Swyddog o'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog o'r AALl i ymuno â'r is-grwpiau;
3. I Swyddogion, ar ran yr Ymddiriedolwr, gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein fel y cyfeirir ato ym mharagraff 3.5 o'r adroddiad.

**8 Adroddiadau Blynyddol yr Ymddiriedolaeth 2021-2022**

Cyflwynodd Louise Harries, Cyfreithiwr Gwasanaethau Cyfreithiol yr adroddiad gan nodi ei bod yn ofynnol yn unol â adran 162 o Ddeddf

Elusennau 2011 i ymddiriedolwyr elusennau sydd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau baratoi adroddiad blynyddol mewn perthynas â'u helusen ym mhob blwyddyn ariannol.

Lle mae incwm yr elusen yn llai na £500,000 gellir llunio adroddiad syml a fo ond rhaid ei gyflwyno i'r Comisiwn os yw'r incwm yn fwy na £25,000 y flwyddyn.  Mae Gwasanaethau Cyfreithiol yn argymell, er nad oes yr un o'r 5 elusen gofrestredig y mae'r Cyngor yn unig yn ymddiriedolwr ar eu cyfer yn ennill incwm sydd yn uwch na'r swm hwn, bydd adroddiadau'n cael eu paratoi'n flynyddol er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth pe bai'r Comisiwn yn gofyn am gopi.

Nodwyd hefyd bod yr adroddiad yn gofyn i holl aelodau'r Pwyllgor gadarnhau eu bod wedi darllen dogfennau Canllawiau'r Comisiwn Elusennau PB2 a PB3 ac y bydd yr adroddiadau blynyddol yn cadarnhau'r datganiad hyn mewn blynyddoedd i ddod.

Nododd aelodau y bydd angen diwygio'r teitl ar gyfer y Swyddog Cyllid a enwir i Swyddog Arweiniol Corfforaethol i adlewyrchu dyrchafiad swydd i'r person hwn.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau:

1. i gymeradwyo fod Swyddogion, ar ran yr ymddiriedolwr, o hyn ymlaen yn llunio adroddiadau blynyddol drafft i'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau i'w hystyried a'u cymeradwyo mewn perthynas ag unrhyw elusennau cofrestredig y mae'r Cyngor yn unig ymddiriedolwr ohonynt;
2. i gymeradwyo'r 5 adroddiad blynyddol drafft yr ymddiriedolwyr a nodir yn Atodiadau 1-5 o'r adroddiad hwn, ac y bydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn llofnodi a dyddio copïau glân ohonynt ar ran ymddiriedolwr yr elusen;
3. y bydd holl Aelodau'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn darllen dwy ddogfen gyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau (PB2 a PB3) a nodir yn Atodiad 6 o'r adroddiad hwn a chadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor eu bod wedi darllen y canllawiau

**9 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill. Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r Swyddogion am y cyfraniadau i'r cyfarfod.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd ar xx.xx.xxxx**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22 Mawrth 2023** |
| **Teitl:** | **Gwelliannau Arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Derbyn argymhellion i wella'r geiriad fel y'i nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.** |
| **Er:** | **Penderfyniad** |

**Cefndir**
Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau dyddiedig 26 Medi 2022, cytunwyd gwella Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau gan ddisodli'r frawddeg gyntaf sy'n darllen "Gweithredu fel ymddiriedolwr ar gyfer yr holl asedion eiddo ym meddiant y Cyngor drwy ymddiriedolaeth elusennol" gyda'r canlynol: **"Gweithredu fel ymddiriedolwr mewn perthynas â'r holl asedau eiddo a ddelir gan y Cyngor ar ymddiredolaethau elusennol"** a chynnwys y canlynol o fewn y Cyfansoddiad ar ôl y llinell '10 aelod: 5 pleidleisio a 5 heb bleidleisio': **"Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd a'r hawl i bleidleisio ond yn absenoldeb Cadeirydd gall Is-gadeirydd yr un Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gael yr hawl i bleidleisio"** Cymeradwyodd y Cyngor y gwelliant cyntaf a fersiwn wedi'i chwtogi o'r ail gynnig, sef "**Cadeiryddion sydd a'r hawl i bleidleisio ond yn absenoldeb Cadeirydd gall Is-gadeirydd bleidleisio**" yn ei gyfarfod dyddiedig 20 Hydref 2022 a chafodd Rhan 3.3, Tabl 3 o'r Cyfansoddiad ei diwygio yn unol â hynny.

Yn dilyn cais byr rybudd am gymeradwyaeth i roi coeden nadolig ar y safle a ddelir mewn ymddiriedolaeth yn Ucheldir (Uplands), Ceinewydd, cynigir bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn cael ei ddiwygio ymhellach i gynnwys adrannau ar:

a) Dirprwyo cyfrifoldebau ymddiriedolwyr; a
b) Datgan buddiannau

**Dirprwyo Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr**
Gall ymddiriedolwyr, yn gyffredinol, ddirprwyo rhai pwerau ond, yn y pen draw, rhaid iddynt bob amser ddal gafael ar y cyfrifoldeb o redeg yr elusen. Os yw ymddiriedolwr yn penderfynu dirprwyo, dylai gyflwyno amodau'r dirprwyo yn ysgrifenedig gan gofnodi'r wybodaeth a ganlyn:

- Manylion y pwerau a ddirprwyir;
- I bwy y dirprwyir y pŵer; a
- Y weithdrefn ar gyfer adrodd yn ôl i'r ymddiriedolwyr.

Dylai'r ymddiriedolwyr adolygu'r penderfyniad i ddirprwyo yn barhaus.

Cynigir bod pŵer yn cael ei ddirprwyo i Gadeirydd y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau (neu'r Is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd) i benderfynu ar faterion

sy'n codi y mae'n ofynnol iddynt gael eu hawdurdodi o fewn ffrâm amser o 10 niwrnod gwaith, gan na fyddai'n bosibl galw cyfarfod a pharatoi a chyhoeddi adroddiadau o fewn y cyfnod byr hwn. Byddai'r amodau a ganlyn yn gymwys:

a) Y Cadeirydd (neu'r Is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd) yn unig fydd yn arfer y pŵer perthnasol;
b) Ni ellir gwario ar ran yr elusen oni bai ei fod yn ymwneud â gwaith brys ar ased ymddiriedolaeth gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i wneud yr ased yn ddiogel neu osgoi niwed i'r cyhoedd neu dir cyfagos.

**Datgan Buddiannau**

Yn unol ag Adran 81 Deddf Llywodraeth Leol 2000, mae'n ofynnol i bob Cynghorydd gwblhau Cofrestr Buddiannau'r Aelodau o fewn 28 niwrnod o gael eu hethol neu eu penodi i'r swydd (pa un bynnag sydd olaf), a chofrestru unrhyw fuddiant personol newydd o fewn 28 niwrnod o ddod yn ymwybodol ohono.

Mae'n ofynnol, hefyd, i Aelodau ddatgan buddiant ar lafar yn ystod y cyfarfod, gan ddweud pa eitem agenda y mae eu datganiad buddiant yn berthnasol iddi, nodi'n glir a yw'n ddatgan buddiant 'personol' neu'n fuddiant 'personol a buddiant sy'n rhagfarnu'. Bydd Aelodau sy'n datgan buddiant 'personol a buddiant sy'n rhagfarnu' yn gadael Siambr y Cyngor (os ydynt yn bresennol yn bersonol) neu'n gadael y cyfarfod os ydynt yn bresennol o bell, yn ystod y drafodaeth ar yr eitem agenda dan sylw. Dylai Aelodau hefyd gadarnhau a ydynt wedi cael gollyngiad i siarad neu siarad a phleidleisio gan y byddai hyn yn caniatáu i Aelodau aros yn y cyfarfod.

Mae geiriad Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau wedi'i wella yn Atodiad A i adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad/Argymhellion:** | 1. Bod Aelodau o'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn nodi'r Cylch Gorchwyl yn Atodiad 1;<br>2. Bod Aelodau o'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn argymell bod y Cyngor yn ystyried y gwelliannau a wnaed i'r Cylch Gorchwyl yn Atodiad 1 sy'n ymwneud â:<br>a) Dirprwyo cyfrifoldebau ymddiriedolwyr;<br>b) Datgan buddiannau |
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | **Egluro swyddogaeth y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau fel y nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor** |
| **Atodiadau:** | **Atodiad 1 - Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau** |

| | |
|---|---|
| **Pennaeth y Gwasanaeth:** | **Elin Prysor - Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu** |
| **Swyddog Adrodd:** | **Louise Harries - Cyfreithiwr** |
| **Dyddiad:** | **Xx/xx/xxxx** |

**Atodiad 1**

**<u>Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau</u>**

**Rôl:**

- Gweithredu fel ymddiriedolwr mewn perthynas â'r holl asedau eiddo a ddelir gan y Cyngor ar ymddiriedolaethau elusennol
- Gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag asedau elusennol er budd pennaf yr elusen.
- Derbyn adroddiadau ar faterion elusennol a sicrhau y cedwir at ofynion y Comisiwn Elusennau a Chyfraith Elusennau i'r graddau y bônt yn ymwneud ag asedau elusennol y Cyngor a ddelir mewn ymddiriedolaeth.

Mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr elusennau weithredu er budd pennaf yr elusen wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â hi a rhaid ymarfer medr a gofal rhesymol wrth wneud hynny. Bydd penderfyniadau'r Pwyllgor, a chyfrifoldeb drostynt, yn rhai ar y cyd. Bydd Aelodau o'r Pwyllgor yn elwa o'r indemniad cyffredinol a roddir gan y Cyngor i Aelodau a Swyddogion cyn belled â'u bod yn gweithredu yn onest, o fewn eu pwerau hwy a phwerau'r elusen, ac yn ddidwyll.

**Aelodaeth:**
Bydd 5 Cadeirydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y Cyngor yn aelodau o'r Pwyllgor, â chanddynt hawliau pleidleisio. Bydd 5 Is-gadeirydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn arsylwyr ond yn absenoldeb Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu penodol yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau, bydd gan Is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwnnw yn benodol yr hawl i bleidleisio yn ystod y Pwyllgor hwnnw.

Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y Cyngor fydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau.

**Cyfarfodydd:**
Bydd trefniant dros dro i gynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn syth ar ôl pob Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ond ni fyddant yn cael eu cynnal os na fydd materion ymddiriedolwyr i roi sylw iddynt.

**Dirprwyo cyfrifoldebau ymddiriedolwyr:**

Caiff pŵer ei ddirprwyo i Gadeirydd y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau (neu'r Is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd) i benderfynu ar faterion sy'n codi y mae'n ofynnol iddynt gael eu hawdurdodi o fewn ffrâm amser o 10 niwrnod gwaith, yn destun yr amodau a ganlyn:

a) Bydd y pŵer perthnasol yn cael ei ymarfer gan y Cadeirydd (neu'r Is-gadeirydd yn ystod absenoldeb y Cadeirydd) yn unig;
b) Ni ellir gwario ar ran yr elusen oni bai ei fod yn ymwneud â gwaith brys ar ased ymddiriedolaeth gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i wneud yr ased hwnnw'n ddiogel neu osgoi niwed i'r cyhoedd neu dir cyfagos.
c) Rhaid i'r Cadeirydd (neu'r Is-gadeirydd os oedd y Cadeirydd yn absennol pan wnaed y penderfyniad) adrodd yn ôl ar y penderfyniad yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau; a
d) Dylai'r ymddiriedolwyr adolygu'r penderfyniad i ddirprwyo yn barhaus.

**Datgan buddiannau:**
Rhaid i bob Cynghorydd gwblhau Cofrestr Buddiannau'r Aelodau o fewn 28 niwrnod o gael eu hethol neu eu penodi i swydd a chofrestru unrhyw fuddiant personol newydd o fewn 28 niwrnod o ddod yn ymwybodol ohono. Rhaid i Aelodau'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau hefyd ystyried a oes unrhyw wrthdaro rhwng eu buddiannau personol hwy a'u rôl ar y Pwyllgor a chynnwys y wybodaeth hon ar y Gofrestr.

Rhaid i Aelodau'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau ddatgan buddiant ar lafar yn ystod y cyfarfod gan ddweud pa eitem agenda y mae eu buddiant yn berthnasol iddi, a nodi'n glir a yw'n ddatgan buddiant 'personol' neu'n fuddiant 'personol a buddiant sy'n rhagfarnu'. Bydd Aelodau sy'n datgan buddiant 'personol a buddiant sy'n rhagfarnu' yn gadael Siambr y Cyngor (os ydynt yn bresennol yn bersonol) neu'n gadael y cyfarfod os ydynt yn bresennol o bell yn ystod y drafodaeth ar yr eitem agenda dan sylw. Dylai Aelodau hefyd gadarnhau a ydynt wedi cael gollyngiad i siarad neu siarad a phleidleisio, gan y byddai hyn yn caniatáu i Aelodau aros yn y cyfarfod.

Eitem Agenda 5

## CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22 Mawrth 2023** |
| **Teitl:** | **Cyfrifon Ariannol 2021-22** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Dwyn y cyfrifon i sylw'r Aelodau** |
| **I'w** | **Nodi** |

### 1. CEFNDIR

O dan a.132 ac a.133 Deddf Elusennau 2011 rhaid i ymddiriedolwyr elusennau baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol elusen naill ai ddatganiad cyfrifon neu, yn ôl y dewis ar gyfer elusennau incwm is, gyfrif derbyniadau a thaliadau ynghyd â datganiad o asedau a dyledion. Mae pob elusen a nodir yn yr adroddiad hwn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer elusennau incwm is ac mae'r cyfrifon yn yr adroddiad wedi'u paratoi yn unol â'r opsiwn sydd ar gael i'r cyfryw elusennau.

### 2. CYFRIFON ARIANNOL

Dangosir y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 yn Atodiad 1 gyda chyfanswm perthnasol y derbyniadau a thaliadau ar gyfer pob un o'r elusennau cofrestredig a ganlyn:

Neuadd Goffa Ceinewydd;
Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd;
Sefydliad Addysgol Coffa Coe;
Cronfa Addysg Ganolradd a Thechnegol Sir Aberteifi; ac
Elusen Richard James Thomas.

### 3. ASEDAU A DDELIR

Yn ychwanegol at y balans arian parod a nodir yn Atodiad 1, mae'r asedau eraill a ddelir gan yr elusennau unigol fel a ganlyn:

**Neuadd Goffa Ceinewydd**
Y neuadd ei hun ynghyd â'r tir o'i chwmpas

**Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd**
Yr ystafell ei hun ynghyd â'r tir o'i chwmpas

**Sefydliad Addysgol Coffa Coe**
Fferm Blaendyffryn
Bondiau Cynilion Cenedlaethol

**Cronfa Addysg Ganolradd a Thechnegol Sir Aberteifi**
Rhan o'r daliadau tir ym mhob un o'r canlynol:
Ysgol Bro Teifi, Ysgol Uwchradd Aberteifi ac Ysgol Uwchradd Aberaeron
Bondiau Cynilion Cenedlaethol

**Elusen Richard James Thomas**
Yr Hen Gapel, Tre'r Ddôl

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad/Argymhellion:** | Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys y cyfrifon |
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | Amherthnasol |
| **Atodiadau:** | Cyfrifon Blynyddol 2021-22 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Duncan Hall |
| **Swyddog Adrodd:** | Chris Hywel Macey |
| **Dyddiad:** | 28 Chwefror 2023 |

| Cronfa | Rhif Elusen | Balans Arian Parod Agoriadol | Derbyniadau | Gwerthiannau Buddsoddiadau | Taliadau | Pryniadau Buddsoddiadau | Balans Arian Parod Terfynol | *Derbyniadau (y llynedd)* | *Gwerthiannau (y llynedd)* | *Taliadau (y llynedd)* | *Pryniadau (y llynedd)* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sefydliad Addysgol Coffa Coe | 525324 | £50,130 | £7,946 | £0 | £0 | £0 | £58,076 | *£8,062* | *£0* | *£0* | *£0* |
| Cronfa Addysg Ganolradd a Thechnegol Sir Aberteifi | 514597 | £299,580 | £21 | £160,000 | £17,011 | £0 | £442,590 | *£184* | *£0* | *£16,986* | *£0* |
| Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd | 525321 | £1,016 | £0 | £0 | £0 | £0 | £1,016 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Neuadd Goffa Ceinewydd | 503653 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Elusen Richard James Thomas | 1077218 | £6,086 | £0 | £0 | £1,250 | £0 | £4,836 | £0 | £0 | £1,605 | £0 |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22 Mawrth 2023** |
| **Teitl:** | **Cais Cyngor Tref Ceinewydd i osod Coeden Nadolig ar dir gerllaw Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Nodi'r penderfyniad a wnaed** |
| **Er:** | **Gwybodaeth** |

**CEFNDIR**

Ddydd Iau, 8 Rhagfyr 2022 derbyniodd Cyngor Sir Ceredigion gais gan Gyngor Tref Ceinewydd am ganiatâd i osod Coeden Nadolig ar dir Llyfrgell Ceinewydd, sydd erbyn hyn yn wag, yn Sgwâr Ucheldir, Ceinewydd. Nodwyd mai dyma'r lleoliad ar gyfer Coeden Nadolig Ceinewydd ers sawl blwyddyn bellach a'u bod wedi bwriadu gosod y goeden ar 12 Rhagfyr 2022.

Cafodd y tir dan sylw ei drosglwyddo a'i osod mewn ymddiriedaeth yn 1952 ac, fel y cyfryw, byddai'n rhaid i Bwyllgor Ymddiriedolwyr yr Elusen benderfynu.

Cyflwynwyd y cais i Gyngor Sir Ceredigion ynghyd ag asesiad risg yn nodi eu bod wedi dod i drefniant gyda siop Costcutters gerllaw o ran trydan i oleuo'r goeden.

Nododd Swyddog y byddai Cyngor Sir Ceredigion yn rhoi trwydded, yn ddarostyngedig i benderfyniad y Pwyllgor, yn unol â'r weithdrefn arferol mewn perthynas â'r defnydd o asedau.

Oherwydd y byr-rybudd, ni fu'n bosibl trefnu cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr gan roi rhybudd o'r 3 niwrnod gwaith statudol ar gyfer cyfarfod, heb sôn am yr amser angenrheidiol i baratoi adroddiad a chyfieithiad. Felly, cafodd e-bost ei gylchredeg i bob Aelod o Bwyllgor Ymddiriedolwyr yr Elusen yn gofyn iddynt hysbysu Clerc y Pwyllgor o unrhyw wrthwynebiad a allai fod ganddynt mewn perthynas â'r cais hwn.

Ymatebodd nifer o Aelodau gan gadarnhau nad oedd ganddynt wrthynwebiad, yn ddarostyngedig i weithdrefn briodol fod ar waith, ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad. Hysbyswyd Cyngor Tref Ceinewydd o'r penderfyniad i ganiatáu iddynt osod y Goeden Nadolig ar safle Llyfrgell Ceinewydd yn Sgwâr Ucheldir dros gyfnod Nadolig 2022/23.

| | |
|---|---|
| Argymhelliad/Argymhellion: | **Nodi'r adroddiad a'r penderfyniad a wnaed mewn ymateb i'r cais gan Gyngor Tref Ceinewydd.** |

| | |
|---|---|
| Rheswm dros y penderfyniad: | Adroddiad er gwybodaeth yn unig |
| Atodiadau: | Dim |
| Pennaeth y Gwasanaeth: | Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Economi ac Adfywio |
| Swyddog Adrodd: | Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol, Economi ac Adfywio |
| Dyddiad: | 14eg Rhagfyr 2023 |